

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

2018

Adroddiad Blynyddol

Mawrth 2019

Rhagair i Adroddiad Blynyddol 2018

Mae 2018 wedi bod yn flwyddyn bwysig i Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin wrth i 12 o aelodau gael eu hethol i'r Fforwm newydd ym mis Mehefin ynghyd â dau aelod pellach a ymunodd yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu bod y Fforwm ar hyn o bryd yn cynnwys 14 o unigolion ag amrywiol ddiddordebau a gwybodaeth mewn perthynas â mynediad i Gefn Gwlad. Bydd y Fforwm hwn yn weithredol am y 3 blynedd nesaf tan fis Mehefin 2021.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau blaenorol, a benderfynodd beidio â sefyll ar gyfer y Fforwm newydd, am eu hamser yn ymwneud â'r Fforwm blaenorol.

Mae'r Fforwm wedi parhau i wneud cynnydd, gydag ymwybyddiaeth gynyddol o'r hyn y mae'r Fforwm yn ei wneud, a mwy o fewnbwn gan amrywiol adrannau yng Nghyngor Sir Caerfyrddin a'r Penaethiaid Gwasanaeth.

Drwy gydol 2018, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi parhau i weithio ar ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) a'r gobaith yw y bydd hwn mewn lle yn ystod 2019.

Bu'r Fforwm yn trafod 39 o wahanol bynciau yn ystod 2018 ar amrywiaeth eang o faterion fel yr amlinellir ar dudalennau 5 i 13. Mae hyn yn dangos bod y Fforwm wedi bod yn rhan o edrych ar nifer sylweddol o eitemau, eu trafod a chyngori arnynt drwy gydol y flwyddyn.

Mae timau Cyfreithiol a Chynnal a Chadw Hawliau Tramwy Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn gweithio'n galed drwy gydol 2018 er mwyn ceisio lleihau nifer y problemau/materion ar y rhwydwaith ac mae'n peri pryder gweld bod y nifer o faterion cynnal a chadw sy'n dal heb eu datrys wedi codi 9% a bod nifer y materion cyfreithiol wedi codi 25% (rhwng Rhagfyr 2017 a Rhagfyr 2018). Mae nifer y materion cyfreithiol yn peri pryder sylweddol gan ei fod wedi cynyddu bron i 50% dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Nid yw'n glir a yw'r cynnydd hwn yn sgil dulliau gwell o roi gwybod am broblemau/materion neu'r toriadau parhaus yn y gyllideb sy'n wynebu Cyngor Sir Caerfyrddin. Nodwyd bod canran yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n agored, yn hygyrch ac wedi'u llofnodi wedi gostwng ychydig, i 45.9%. Bydd y Fforwm yn parhau i fonitro cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy yn agos drwy gydol 2019.

Bydd 2019 yn flwyddyn brysur arall i'r Fforwm wrth i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gael ei weithredu, y diddordeb parhaus ym mhrosiect Llwybr Dyffryn Tywi a thrafodaethau parhaus â'r Penaethiaid Gwasanaeth ynghylch materion strategol a pholisi sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad.

Carwn ddiolch i Caroline Ferguson, Lucy Pugh, Jason Lawday, Martin Murray a holl aelodau'r Tîm Hawliau Tramwy am eu hamser ac am eu cyngor i'r fforwm fel ysgrifenyddion/ymgyngorwyr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal carwn ddiolch i holl aelodau'r fforwm am eu hamser a'u harbenigedd i'r Fforwm.

Mark Hadley
Cadeirydd
Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Nodyn gan yr Ysgrifennydd

Mae Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin wedi cael blwyddyn brysur arall. Ynghyd â chyfarfodydd chwarterol rheolaidd lle trafodir amrywiaeth eang o bynciau sy'n gysylltiedig â mynediad, mae'r Fforwm wedi parhau i gynorthwyo a chynghori ynghylch datblygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin ac wedi diddymu un Fforwm ac ethol Fforwm newydd hanner ffordd drwy'r flwyddyn galendr.

Mae aelodau'r Fforwm wedi nodi a thrafod pynciau mynediad perthnasol drwy gydol 2018 sy'n cael effaith ar ddarpariaeth mynediad yn Sir Gaerfyrddin. Mae sylwadau gwerthfawr, cyngor strategol a/neu ganllawiau wedi eu hadrodd yn ôl i'r Awdurdod Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac unrhyw ddefnyddwyr neu ddarparwyr mynediad eraill yn y Sir.

Mae'r ddarpariaeth barhaus o ddata gan y Gwasanaeth Mynediad i Gefn Gwlad wedi helpu aelodau'r fforwm i gael darlun clir o'r her weithredol o gadw'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor a rhoi syniad o gyflwr cyffredinol y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Gyda'r wybodaeth hon, mae'r Fforwm wedi gallu darparu argymhellion priodol a defnyddiol i'r gwasanaeth a'r Awdurdod yn eu cyfanrwydd.

Mae blwyddyn o newidiadau sylweddol arfaethedig i ddarpariaeth mynediad cyhoeddus yng Nghymru o'n blaenau. Y gobaith yw y gall Fforwm Sir Gaerfyrddin barhau i gadw golwg ar y newidiadau a darparu cyngor strategol gwerthfawr i'r Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru yn ystod camau amrywiol y newidiadau hynny.

Hoffwn ddiolch, fel yr Ysgrifennydd dros dro, am ymrwymiad aelodau Fforwm Sir Gaerfyrddin a'r wybodaeth, y profiad a'r cyngor adeiladol y mae'r holl aelodau'n eu cynnig i'r Fforwm.

Caroline Ferguson
Ysgrifennydd Dros Dro Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Rhagarweiniad

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin ym mis Medi 2002. Mae'n gyfrifol am Sir Gaerfyrddin, ac eithrio'r ardal sy'n rhan o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; ei Fforwm Mynediad Lleol nhw sy'n gyfrifol am yr ardal honno fel y dangosir yn Atodiad 3. Roedd gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i sefydlu'r Fforwm yn ôl gofynion Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Swyddogaeth statudol y Fforwm yw cynghori'r awdurdod, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill am wella mynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal, gan barchu anghenion rheoli tir a harddwch naturiol y wlad.

Bellach mae cylch gwaith y Fforwm wedi cael ei ehangu i roi cyngor nid yn unig i'r awdurdod penodi (Cyngor Sir Caerfyrddin yn ein hachos ni), yr Awdurdod Prifffyrdd a chyrrff eraill fel y nodir gan y rheoliadau, ond hefyd i roi cyngor ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Wardeiniaeth, llunio is-ddeddfau ac eithrio a chyfyngu hir dymor ar fynediad.

Dylid ceisio barn y Fforwm ynghylch unrhyw reoliadau newydd o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, rheoli hawliau mynediad newydd, y blaenoriaethau strategol ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a rhwydweithiau beicio a phob math arall o hamddena yn yr awyr agored.

Mae aelodau'r Fforwm wedi ymrwymo i fynychu cyfarfodydd o grwpiau allanol os bydd hynny'n briodol ac fe'u hanogir i wneud popeth o fewn eu gallu i ymwneud â'r cyhoedd.

Mae holl gyfarfodydd y Fforwm yn agored i'r cyhoedd. Mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm a manylion eraill ynghylch y Fforwm ar gael ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin: <https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/>

Mae rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodi baratoi adroddiad blynyddol, cyn gynted â phosib ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, ynghylch pob Fforwm y maent yn gyfrifol amdano. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch llunio adroddiadau Blynyddol Fforymau Mynediad Lleol a chynnwys yr adroddiadau hynny.

Bydd amryw bwrpas i'r adroddiad blynyddol, sef cyflwyno:

- a) Crynodeb o waith y flwyddyn flaenorol. Bydd cofnodion cyfarfodydd unigol a dogfennau eraill a luniwyd yn rhoi mwy o fanylion ond bydd yr adroddiad blynyddol yn crynhoi gwaith y Fforwm.
- b) Cynllun gwaith am y flwyddyn sydd i ddod. Hwn fydd y cynllun y cytunodd y Fforwm a'r awdurdod penodi arno, yn unol â rheoliad 16(2)(b). Derbynnir y gall blaenoriaethau sy'n newid a phwysau gwaith arall olygu na ellir cydymffurfio â'r cynllun yn llawn.

- c) Dogfen 'gyhoeddusrwydd'. Yn ôl statud mae'n rhaid i'r adroddiad blynyddol fod ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen ac mae'n rhaid iddo fod ar gael i'r cyhoedd ei brynu.

Adolygu'r Flwyddyn

Adroddiad ar y Swyddogaeth Statudol

Mae'r adran hon o'r adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar sut y cyflawnodd y Fforwm ei swyddogaeth statudol yn ystod y flwyddyn sy'n gorffen ar 31 Rhagfyr 2018. Yn ôl y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, ei swyddogaeth yw cynghori:

- a) Yr awdurdod penodi.
- b) Unrhyw gorff sy'n cyflawni swyddogaethau dan Ran I mewn perthynas â thir yn yr ardal honno.
- c) Os yw'r awdurdod penodi yn Awdurdod Parc Cenedlaethol, yr awdurdod priffyrdd lleol ynghylch unrhyw ddarn o'r tir hwnnw, a
- d) Chyrff eraill y gellir eu pennu.

Ynghylch gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal honno at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal.

Bydd y cyrff a enwir yn (a) i (d) (uchod) yn rhoi sylw, wrth iddynt gyflawni'u swyddogaethau, i unrhyw gyngor perthnasol a roddir iddynt gan Fforwm Mynediad Lleol dan yr isadran hon neu unrhyw ddarpariaeth arall dan y Ddeddf hon.

Cynhaliodd y Fforwm 4 cyfarfod yn y cyfnod rhwng 1 Ionawr 2018 a 31 Rhagfyr 2018. Gellir crynhoi'r cyfarfodydd hyn fel a ganlyn:

- 1) 15 Chwefror 2018 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 2) 14 Mehefin 2018 – Canolfan Tywi, Llandeilo (Etholiad y Fforwm a'r Cyfarfod Cyntaf)
- 3) 20 Medi 2018 – Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 4) 6 Rhagfyr 2018 – Canolfan Tywi Llandeilo

Materion a Ystyriwyd gan y Fforwm rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2018

1. Pwnc Trafod: **Timau Cyfreithiol a Chynnal a Chadw Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018, 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Mae cyfarfodydd y Fforwm wedi cael diweddariadau cyson ynghylch y sefyllfa o ran recriwtio i swyddi gwag o fewn yr adrannau Hawliau Tramwy.

2. Pwnc Trafod: **Adroddiadau ar Faterion yn ymwneud â'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018, 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Mae cyfarfodydd y Fforwm yn parhau i gael diweddariadau drwy dderbyn adroddiad ym mhob cyfarfod yn amlinellu nifer y materion cyfreithiol a chynnal a chadw sydd heb eu datrys sy'n effeithio ar y rhwydwaith hawliau tramwy. Mae'r adroddiadau hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

3. Pwnc Trafod: **Y Newyddion Diweddaraf am y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018, 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Mae'r Fforwm wedi trafod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy mewn sawl cyfarfod ac wedi gofyn am i ymgynghori llawn ddigwydd ag ef o ran yr adroddiad terfynol. Mynegwyd pryderon yng nghyfarfod mis Mehefin ynghylch pa mor gyflawn oedd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd. Cadarnhawyd

bod hyn yn cael ei edrych arno eto. Yng nghyfarfod mis Medi, cadarnhawyd bod y drafft yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol i'w gymeradwyo ar 8 Hydref ac y byddai cyfnod ymgynghori o 12 wythnos yn dilyn. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cadarnhawyd bod drafft y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol a'i fod wedi cael ei gyfieithu ac y byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal arno cyn bo hir.

4. Pwnc Trafod: **Llwybr Dyffryn Tywi**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018
20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Mynegodd y Fforwm bryderon ynghylch y prosiect ar sawl achlysur. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys cywirdeb y rhagamcanion o ran cyllid a defnyddwyr a chaniatáu i geffylau gael mynediad i'r llwybr. Cytunwyd yng nghyfarfod mis Medi y byddai'r prosiect a'r diffyg ymgynghori â'r Fforwm yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth.

5. Pwnc Trafod: **Fferm Wynt Brechfa**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018
20 Medi 2018

Crynodeb: Cytunodd y Fforwm gadw golwg ar y prosiect drwy ddarparu diweddariadau cyson. Yng nghyfarfod mis Medi, trafodwyd y mater o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a nodwyd y gallai'r fferm wynt achosi problemau yswiriant i rai grwpiau defnyddwyr oherwydd pa mor agos yw'r fferm wynt at rai o'r hawliau tramwy. Cytunwyd y gofynnir i Gyfoeth Naturiol Cymru am sylwadau ar hyn.

6. Pwnc Trafod: **Adolygiad o Lwybrau Cerdded y Sir**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018

Crynodeb: Rhoddodd Martin Murray wybod i'r Fforwm bod adolygiad o Lwybrau Cerdded y Sir yn cael ei gynnal.

7. Pwnc Trafod: **Morfa Bychan**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018

Crynodeb: Roedd y Fforwm wedi bod yn trafod y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig arfaethedig ar gyfer y gilffordd hon gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ac yn cael gwybod yn gyson am y datblygiadau diweddaraf.

8. Pwnc Trafod: **Nant Gronw**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018

Crynodeb: Roedd y Fforwm wedi bod yn cael diweddariadau cyson mewn perthynas â'r ardal hon o dir a'r problemau parhaus o ran mynediad.

9. Pwnc Trafod: **Gelli Aur**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018

Crynodeb: Roedd y Fforwm wedi bod yn cael diweddariadau cyson mewn perthynas â mynediad cyhoeddus i Barc Gwledig Gelli Aur.

10. Pwnc Trafod: **Cau Croesfannau Network Rail**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018

Crynodeb: Derbyniodd y Fforwm ddiweddariad ynghylch cau croesfannau rheilffordd.

11. Pwnc Trafod: **Strategaeth Farchogaeth**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 20 Medi 2018,
6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Cytunodd y Fforwm yng nghyfarfod mis Chwefror y byddai'n cefnogi strategaeth farchogaeth. Yng nghyfarfod mis Medi, cynhyrchwyd map o lwybrau ceffylau gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cadarnhaodd Karen Burch (KB) ei bod wedi cyfarfod â Chyngor Sir Caerfyrddin i geisio datrys rhai materion yn ymwneud â hyd llwybrau ceffylau a ddangosir yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac y byddai'n anodd datrys pob un

o'r materion hyn yn llawn. Gofynnodd KB hefyd a allai'r adroddiad a ddarparwyd ym mis Chwefror ddangos a fyddai'n bosibl dangos y materion ar lwybrau ceffylau caeedig ac a fyddai'n bosibl eu hail-agor.

12. Pwnc Trafod: **Gwirfoddoli**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 20 Medi 2018,
6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Mae'r Fforwm wedi bod yn trafod yn rheolaidd y defnydd o wirfoddolwyr i helpu Cyngor Sir Gaerfyrddin gynnal tasgau cynnal a chadw syml i'r rhwydwaith hawliau tramwy. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cadarnhawyd bod cerddwyr wedi bod yn gwneud gwaith gwirfoddol ar y rhwydwaith hawliau tramwy ac y byddai'n dda pe gellid cydnabod y gwaith hwn. Yn ogystal, cafwyd trafodaeth ynghylch talu treuliau i wirfoddolwyr. Cytunwyd y byddai datganiad i'r wasg yn cael ei lunio yn amlinellu cyflawniadau gwirfoddolwyr ac y byddai'r Cadeirydd yn trafod treuliau yng nghyfarfod nesaf y penaethiaid gwasanaeth.

13. Pwnc Trafod: **Cytundeb Dirprwyo Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018

Crynodeb: Mae'r Fforwm wedi bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran y cytundeb dirprwyo â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

14. Pwnc Trafod: **Adroddiad Blynyddol (Drafft) y Fforwm 2017**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018

Crynodeb: Cadarnhawyd bod Adroddiad Blynyddol y Fforwm ar gyfer 2017 yn barod i'w gyhoeddi yng nghyfarfod mis Chwefror. Cadarnhawyd yng nghyfarfod mis Mehefin bod yr adroddiad yn aros i gael ei gyfieithu.

15. Pwnc Trafod: **Ail-ethol Aelodau'r Fforwm**

Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018

- Crynodeb: Cytunwyd yng nghyfarfod mis Chwefror y byddai'r Fforwm presennol yn parhau mewn lle tan i aelodau newydd gael eu hethol i'r Fforwm.
16. Pwnc Trafod: **Cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth**
- Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018
- Crynodeb: Mae'r Fforwm wedi cael diweddariadau cyson o ran cyfarfodydd y penaethiaid gwasanaeth y mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm yn eu mynychu.
17. Pwnc Trafod: **Mynyddoedd yr Elenydd**
- Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018
- Crynodeb: Yng nghyfarfod mis Chwefror, rhoddwyd gwybod i'r Fforwm fod posibilrwydd bod Mynyddoedd yr Elenydd yn edrych ar gael statws 'Parc Natur'. Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm yng nghyfarfod mis Mehefin fod 'Map Twristaidd' o Fynyddoedd yr Elenydd yn y broses o gael ei gynhyrchu.
18. Pwnc Trafod: **Llwybrau Beicio Mynydd Brechfa**
- Dyddiad(au) Trafod: 15 Chwefror 2018, 14 Mehefin 2018
- Crynodeb: Bu'r Fforwm yn trafod cyflwr gwael y llwybrau beicio mynydd ym Mrechfa gyda Chyfoeth Naturiol Cymru yng nghyfarfod mis Chwefror. Cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru wariant o £40,000 ynghyd ag ystadegau defnydd yn y cyfarfod ym mis Mehefin.
19. Pwnc Trafod: **Ethol Aelodau Newydd y Fforwm Mynediad Lleol**
- Dyddiad(au) Trafod: 14 Mehefin 2018. 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018
- Crynodeb: Etholwyd aelodau newydd y Fforwm fel y dangosir yn Atodiad 4. Cafodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm eu hethol hefyd. Yng nghyfarfod mis Medi, derbyniwyd Mo Rapley i'r Fforwm. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, derbyniwyd Jim Shadbolt i'r Fforwm.

20. Pwnc Trafod: **Cyfarfod Cadeiryddion y Fforwm Mynediad Lleol**

Dyddiad(au) Trafod: 14 Mehefin 2018

Crynodeb: Yn dilyn cyfarfod y Cadeiryddion ym mis Mehefin, darparwyd diweddariad i'r Fforwm ynghylch y pynciau a drafodwyd yng nghyfarfod Cadeiryddion y Fforwm gan gynnwys y defnydd o ddangosyddion perfformiad, beth i'w wneud pan fydd tymor Fforwm yn dod i ben, rhan y Fforwm yng nghynllun Glastir a phresenoldeb gwael cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yng nghyfarfodydd y Fforwm.

21. Pwnc Trafod: **Ansawdd y Rhwydwaith cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig (BOAT) a Diweddariad Is-bwyllgor cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig/llwybrau eraill â mynediad cyhoeddus (ORPA)**

Dyddiad(au) Trafod: 14 Mehefin 2018, 20 Medi 2018,
6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Bu'r Fforwm yn trafod y pwnc hwn ar sawl achlysur a phenderfynodd gynnal ymchwiliad cychwynnol i gyflwr y rhwydwaith ffyrdd sirol di-ddosbarth a chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig. Cytunwyd yng nghyfarfod mis Medi y byddai is-bwyllgor yn cyfarfod ar 21 Tachwedd i drafod cilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig a ffyrdd sirol di-ddosbarth ac edrych ar fapio'r llwybrau. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cadarnhawyd bod 2 gyfarfod wedi'u cynnal er mwyn gwneud ymarfer mapio ar y llwybrau a bod 79 o lwybrau wedi'u hamlygu fel rhai yr oedd angen eu harolygu. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth i weld a fyddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol i Gyngor Sir Caerfyrddin.

22. Pwnc Trafod: **Llwybr Rheilffordd Calon Cymru**

Dyddiad(au) Trafod: 14 Mehefin 2018

Crynodeb: Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Fforwm ynghylch cynnydd o ran llwybr cerdded Rheilffordd Calon Cymru.

23. Pwnc Trafod: **Cofnodion y Fforwm Mynediad Lleol**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018

Crynodeb: Cytunwyd yng nghyfarfod mis Medi y byddai'r cofnodion yn cael eu hanfon at Aelodau'r Fforwm yn fuan ar ôl cyfarfod i'w cymeradwyo er mwyn caniatáu iddynt gael eu cyfieithu a'u hychwanegu at wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin yn gyflymach.

24. Pwnc Trafod: **Cyfoeth Naturiol Cymru - Cyswllt y Fforwm Mynediad Lleol**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Gofynnodd y Fforwm i gynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru a fyddai modd i'r Fforwm gynnal cyfarfod penodol i drafod materion sy'n ymwneud â hawliau tramwy. Cadarnhawyd ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr y cynhelir cyfarfod gyda chynrychiolwyr Cymdeithas Ceffylau Prydain ac nad yw'n agored i grwpiau eraill.

25. Pwnc Trafod: **Glastir**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018

Crynodeb: Mae'r Fforwm wedi trafod Glastir yn y cyfarfodydd a nodwyd.

26. Pwnc Trafod: **Diweddariad o ran Ymgynghorwyr**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Bu'r Fforwm yn trafod y defnydd o ymgynghorwyr i gynnal rhai o achosion yr adran gyfreithiol. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ynghylch Cilffordd Rhydodyn. Cadarnhawyd bod yr ymgynghorydd yn dal i wneud gwaith ymchwil. Cafodd y Fforwm wybod bod mapiau ac atodlenni'r Ddeddf Gyllid wedi cael eu symud i Hwlfordd. Cadarnhaodd y Cynghorydd Hughes-Griffiths fod adeilad newydd yr Archifdy yn

dod ymlaen yn dda a dylai fod ar agor yn Hydref 2019.

27. Pwnc Trafod: **Cynnig Penstacan**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018

Crynodeb: Trafodwyd y materion yn ymwneud â'r Gilffordd hon a chytunwyd yng nghyfarfod mis Medi nad oedd hwn yn fater i'r Fforwm ei ystyried ymhellach.

28. Pwnc Trafod: **Mynediad at Ddŵr at Ddibenion Hamdden, Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a Chynrychiolaeth y Fforwm**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Trafodwyd ychwanegu mynediad at ddŵr yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Yn ogystal, trafododd y Fforwm y diffyg canŵ-wyr ar y Fforwm a chytunwyd i ymchwilio i hyn. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cytunwyd y dylai'r Fforwm ymdrin â mynediad at ddŵr, nid o reidrwydd ar y dŵr. Yn ogystal, cadarnhawyd bod Canŵ Cymru yn ymgynghoreion ar gyfer y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ac y dylent fod yn ymwybodol o'r Fforwm.

29. Pwnc Trafod: **Pontydd**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Bu'r Fforwm yn trafod gwaith arfaethedig ar bontydd ar y rhwydwaith hawliau tramwy. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cadarnhawyd rhestr o bontydd ar y rhaglen.

30. Pwnc Trafod: **Llwybr Arfordir Cymru**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018

Crynodeb: Darparwyd diweddariadau ynghylch materion cynnal a chadw a materion Arfordir Cymru.

31. Pwnc Trafod: **Parc Gwledig Pen-bre**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Bu'r Fforwm yn trafod materion yn ymwneud â llinellau melyn a oedd yn achosi problemau parcio ar gyfer marchogion a oedd yn dymuno cael mynediad i'r parc. Cytunwyd y byddai'r Fforwm yn cefnogi'r marchogion i wrthwynebu'r llinellau oni bai fod darpariaeth arall ar gyfer parcio yn cael ei gyflwyno. Cadarnhawyd yng nghyfarfod mis Rhagfyr fod Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi cynnig bod marchogion yn cael mynediad i faes parcio'r Pysgotwyr ar gyfer parcio cerbydau ceffylau. Codwyd pryderon efallai nad oedd hyn yn addas oherwydd bod y trac sy'n arwain at y maes parcio yn gul iawn a phetai'n llawn, byddai'n anodd troi gyda threlar.

32. Pwnc Trafod: **Cyllideb Llwybrau Eraill â Mynediad i'r Cyhoedd/Cilffyrdd**

Dyddiad(au) Trafod: 20 Medi 2018, 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Trafododd y Fforwm fod swm o £16k wedi cael ei ddyrannu i'w wario ar 5 gwelliant ar hawliau tramwy i gerbydau a oedd wedi'u cytuno arnynt gyda defnyddwyr. Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, cadarnhawyd rhestr o'r hawliau tramwy hyn.

33. Pwnc Trafod: **Gwefan y Fforwm**

Dyddiad(au) Trafod: 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Tynnodd aelodau'r Fforwm sylw at y ffaith nad oedd rhai o gofnodion y Fforwm ar y wefan a bod angen ychwanegu dyddiadau cyfarfodydd y Fforwm yn y dyfodol at y wefan.

34. Pwnc Trafod: **Arddangosfa Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS)**

Dyddiad(au) Trafod: 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Rhoddodd Lucy Pugh arddangosfa i'r Fforwm o'r system CAMS ac atebodd gwestiynau am y data sydd ganddi a sut y gellid ei ddefnyddio.

35. Pwnc Trafod: **Cynhadledd y Fforwm - 15 Tachwedd 2018**

Dyddiad(au) Trafod: 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Rhoddodd Geoffrey Williams a Caroline Ferguson ddiweddariad ar faterion a drafodwyd yn y gynhadledd.

36. Pwnc Trafod: **Gweithredu Hawliau o dan Gyfraith Gwlad (EDCL)**

Dyddiad(au) Trafod: 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Rhoddodd Caroline ddiweddariad i'r Fforwm am EDCL ac esboniodd y byddai'n cael ei drafod yn fanylach yn y cyfarfod nesaf.

37. Pwnc Trafod: **Ymgynghoriad Mynediad Cyhoeddus - Ffair-fach A483**

Dyddiad(au) Trafod: 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Rhoddwyd gwybod i'r Fforwm am yr ymgynghoriad hwn a'r ffaith nad oedd Cynlluniad Cymru wedi cynnwys y Fforwm yn y rhestr ymgynghori gychwynnol. Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith bod rhai pryderon wedi'u codi ynghylch yr effeithiau y gallai'r prosiect hwn eu cael ar fynediad.

38. Pwnc Trafod: **Arwynebau ar gyfer Llwybrau Aml-ddefnyddwyr**

Dyddiad(au) Trafod: 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Trafodwyd yr opsiwn o ddefnyddio Nu-phalt a soniwyd y gallai fod cyfle i dreialu'r cynnyrch ar lwybr yn Sir Gaerfyrddin.

39. Pwnc Trafod: **Ffyrdd Coll**

Dyddiad(au) Trafod: 6 Rhagfyr 2018

Crynodeb: Dosbarthodd Richard Legett wybodaeth am ffyrdd coll i'r Fforwm.

Gweithgareddau eraill y Cadeirydd / yr Is-gadeirydd / y Fforwm

Rhestr o'r gweithgareddau eraill a gyflawnodd Cadeirydd / Is-gadeirydd / Aelodau eraill y Fforwm yn unol ag amcanion y Fforwm yn ystod 2018:

Dyddiad	Digwyddiad	Natur y Presenoldeb	Mynychwyd gan
21/03/18	Cyfarfod Grŵp Defnyddwyr Cilffyrdd	Aelodau'r Grŵp	Mark Hadley, Karen Burch
28/03/18	Cyfarfod Cadeiryddion y Fforwm - Aberystwyth	Cadeirydd y Fforwm	Mark Hadley
16/04/18	Y Fforwm - Cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth	Cadeirydd/Is-gadeirydd y Fforwm	Mark Hadley, Karen Burch
15/11/18	Cynhadledd y Fforwm	Aelodau'r Fforwm	Geoffrey Williams, Caroline Ferguson
18/12/18	Y Fforwm - Cyfarfod y Penaethiaid Gwasanaeth	Cadeirydd/Is-gadeirydd y Fforwm	Mark Hadley, Caroline Ferguson

Pwyllgorau'r Fforwm / Cyfarfodydd Eraill

Yn unol â rheoliad 13 o'r Fforwm caniateir sefydlu pwyllgorau'r Fforwm. Yn 2018, sefydlodd y Fforwm y pwyllgorau canlynol / mynychodd y Fforwm y cyfarfodydd canlynol:

Dyddiad	Digwyddiad	Natur y Presenoldeb	Mynychwyd gan
21/11/18	Fforwm - Is-bwyllgor Ffyrdd Sirol Di-ddosbarth / Cilffyrdd	Sefydlu is-bwyllgor i edrych ar fapio'r ffyrdd sirol di-ddosbarth/cilffyrdd	Mark Hadley, Geoffrey Williams, Mo Rapley, Jillie Gardiner, Richard Leggett, Jason Lawday, Jason Winter
03/12/18	Fforwm - Is-bwyllgor Ffyrdd Sirol Di-	Sefydlu is-bwyllgor i edrych ar fapio'r ffyrdd	Mark Hadley, Geoffrey Williams, Mo

	ddosbarth / Cilffyrdd	sirol di- ddosbarth/cilffyrdd	Rapley, Jillie Gardiner, Richard Leggett, Jason Lawday, Jason Winter
--	--------------------------	----------------------------------	--

Cyflwyniadau i'r Fforwm

Rhodddwyd y cyflwyniadau canlynol gerbron y Fforwm yn 2018:

Dydd Iau, 6 Rhagfyr 2018 - Cyflwyniad gan Lucy Pugh (Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad Dros Dro - Cyngor Sir Gaerfyrddin) ynghylch y system Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad.

Cynllun Gwaith 2019

Yn unol â Rheoliad 16(2)(b), mae'n ofynnol bod adroddiad blynyddol y Fforwm yn cynnwys rhaglen waith y cytunwyd arni gan y Fforwm a'r awdurdod penodi ac y bydd y Fforwm yn ei gweithredu yn ystod y deuddeng mis nesaf. Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys ar gyfer 2019:

1. Eitemau y disgwylir iddynt gael eu cyfeirio at y Fforwm gan gyrrff eraill:

Awdurdod Lleol:

Rhagwelir y bydd yr eitemau canlynol yn cael eu trafod gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin yn 2019:

- Teithio Llesol
- Prosiect Llwybr Beicio Dyffryn Tywi
- Adolygiad o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Cynllunio
- Rhaglen Waith Gwelliannau Grant
- Strwythurau Staffio Adran Gyfreithiol a Chynnal a Chadw Cyngor Sir Gaerfyrddin o ran Mynediad i Gefn Gwlad
- Diweddariadau cyson ynghylch y rhaglen gwelliannau grant a'r gwaith hawliau tramwy a wnaed gan yr Awdurdod.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mhob cyfarfod gyda golwg ar faterion cynnal a chadw a materion cyfreithiol sydd heb eu datrys.

Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru

Rhagwelir y bydd yr eitemau canlynol yn cael eu cyfeirio at y Fforwm gan Lywodraeth Cymru yn 2019:

- Proses Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Disgwylia Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru gyfeirio'r materion canlynol at y Fforwm Mynediad Lleol yn ystod y flwyddyn.

Canllaw yw hwn yn unig a gall newid i gyd-fynd â blaenoriaethau gwaith. **Ni ddylid ei ystyried yn rhestr derfynol.** Yn ogystal, bydd Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol yn cyfeirio materion at y Fforymau Mynediad Lleol. Hefyd dylai aelodau'r Fforwm gael eu hannog i gyflwyno eitemau agenda.

- Ymgysylltu â sefydliadau eraill.
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r Fforwm a'i waith.
- Dylanwad - Monitro effaith cyngor ac argymhellion.
- Cynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn.
- Aelodaeth.
- Rôl a llywodraethu'r Fforwm.
- Edrych ar gymorth ar gyfer y Fforymau Mynediad Lleol.

2. Eitemau a Gynigiwyd gan Aelodau'r Fforwm ac eraill:

Mae aelodau'r Fforwm wedi gwneud cais am i'r eitemau canlynol gael eu trafod yn 2019:

- Recriwtio aelodau eraill o'r cyhoedd / grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y Fforwm gan gynnwys Cynrychiolydd Grŵp Defnyddwyr Anabl a Chynrychiolydd o ran Canŵio/Mynediad at Ddŵr.
- Defnyddio gwirfoddolwyr i helpu'r Awdurdod
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth (o leiaf 2 fesul blwyddyn)
- Map BOATs â Statws Gweithredol
- EDCL
- Llinellau Melyn Dwbl ym Mhen-bre
- Strategaeth Farchogaeth
- Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus Fferm Wynt Brechfa
- Bil Amaethyddol (os yw'n berthnasol ar y pryd)

Cyfarfodydd Arfaethedig yn 2019

Mae'r rhaglen arfaethedig ar gyfer cyfarfodydd yn 2019 fel a ganlyn:

- 7 Mawrth 2019 - Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 13 Mehefin 2019 – Canolfan Tywi Llandeilo
- 19 Medi 2019 - Canolfan Hamdden Caerfyrddin
- 5 Rhagfyr 2019 – Canolfan Tywi Llandeilo

Atodiadau

Atodiad 1
Adroddiadau ar Faterion Cynnal a Chadw a Materion Cyfreithiol sydd heb eu datrys


Adroddiadau ar gyfer:

A. 08/02/12

Adroddiadau ar Faterion Cynnal a Chadw

Responsibility	Maint
MaintStatus Desc = Legal or Unresolved	(Multiple Items)


Number of Issues	RouteStatus					Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	UCR	(blank)	
Cross path	258	12	4		8	282
Sign roadside	252	12	4			268
Gate	122	16	1			139
Stile	123	1				124
Vegetation	102	8				110
Terrain	81	15	2	1	1	100
Bridge	95	3				98
Sign not road	85	3				88
Survey	12	2				14
Other	14					14
Missing	11					11
Steps	7					7
Alongside path	3		1			4
Boardwalk	2					2
Grand Total	1167	72	12	1	9	1261



Materion Cyfreithiol

Responsibility	Legal
MaintStatus Desc = Legal or Unresolved	(Multiple Items)

Number of Issues	RouteStatus				Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	Restricted Byway	
Legal	393	24	12	1	430
Obstacles	37		1		38
Cross path	15	2			17
Land use	12	3			15
Intimidating or Misleading	3		1		4
Alongside path	3				3
Grand Total	463	29	14	1	507




B. 08/06/18

Adroddiadau ar Faterion Cynnal a Chadw

Responsibility	Maint
MaintStatus Desc = Legal or Unresolved	(Multiple Items)

Number of Issues	RouteStatus					Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	UCR	(blank)	
Cross path	265	12	4		8	289
Sign roadside	267	12	4			283
Gate	122	17	1			140
Stile	125	1				126
Vegetation	105	7				112
Terrain	85	15	2	1	1	104
Bridge	99	3				102
Sign not road	89	3				92
Other	15					15
Survey	12	2				14
Missing	12					12
Steps	6					6
Alongside path	3		1			4
Boardwalk	2					2
Grand Total	1207	72	12	1	9	1301




Materion Cyfreithiol

Outstanding Legal Issues as at 08/06/2018

Responsibility	Legal
MaintStatus Desc = Legal or Unresolved	(Multiple Items)

Number of Issues	RouteStatus				Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	Restricted Byway	
Legal	453	29	13	1	496
Obstacles	37		1		38
Cross path	17	2			19
Land use	12	3			15
Intimidating or Misleading	4		1		5
Alongside path	3				3
Grand Total	526	34	15	1	576




C. 18/09/18

Adroddiadau ar Faterion Cynnal a Chadw

Responsibility	Maint
MaintStatus Desc = Legal or Unresolved	(Multiple Items)


Number of Issues	RouteStatus					Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	UCR	(blank)	
Sign roadside	275	13	4			292
Cross path	265	12	4		8	289
Gate	114	16	1			131
Vegetation	120	7				127
Stile	120	1				121
Bridge	98	3				101
Sign not road	93	3				96
Terrain	75	13	2	2	1	93
Survey	12	2		1		15
Other	15					15
Missing	11					11
Steps	7					7
Alongside path	3		1			4
Boardwalk	2					2
Grand Total	1210	70	12	3	9	1304



Materion Cyfreithiol

Responsibility	Legal
MaintStatus Desc = Legal or Unresolved	(Multiple Items)

Number of Issues	RouteStatus				Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	Restricted Byway	
Legal	476	28	15	1	520
Obstacles	38		1		39
Cross path	16	3			19
Land use	12	3			15
Intimidating or Misleading	4				4
Alongside path	3				3
Grand Total	549	34	16	1	600




D. 04/12/18

Adroddiadau ar Faterion Cynnal a Chadw

Responsibility = Maint	Maint
MaintStatus Desc = Unresolved	Unresolved


Number of Issues	RouteStatus					Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	UCR	(blank)	
Sign roadside	290	14	4			308
Cross path	269	11	4		8	292
Vegetation	141	7				148
Gate	116	17	1			134
Stile	130	1				131
Bridge	96	2	1			99
Sign not road	92	3	1			96
Terrain	75	13	2	2	1	93
Survey	13	2				15
Missing	14					14
Other	14					14
Steps	12					12
Alongside path	3		1			4
Boardwalk	2					2
Grand Total	1267	70	14	2	9	1362



Materion Cyfreithiol

Responsibility = Legal	Legal
MaintStatus Desc = Unresolved	Unresolved

MaintTypeGroup	RouteStatus				Grand Total
	Footpath	Bridleway	Byway Open to All Traffic	Restricted Byway	
Legal	486	30	15	1	532
Obstacles	37		1		38
Cross path	16	3			19
Land use	12	3			15
Intimidating or Misleading	4				4
Alongside path	3				3
Grand Total	558	36	16	1	611



Atodiad 2 – Penodi Manylion Awdurdod

Enw'r Awdurdod Penodi: Cyngor Sir Gaerfyrddin

Ardal y mae'r Fforwm yn gyfrifol amdani: Sir Gaerfyrddin gyfan ac eithrio'r rhan honno sy'n rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ysgrifennydd: Caroline Ferguson, Rheolwr Dros Dro - Mynediad i Gefn Gwlad, Uned Cefn Gwlad, Hamdden a Mynediad, Cyngor Sir Gaerfyrddin, Parc Coetir y Mynydd Mawr, Heol Hirwaun Olau, y Tymbl, Sir Gaerfyrddin, SA14 6HU.

Rhif Ffôn: 01554 747511 (est.3811)

E-bost: CFerguson@sirgar.gov.uk

Atodiad 3 – Map o Ardal y Fforwm Mynediad Lleol



© Crown copyright and database rights 2018. Ordnance Survey 100022577

Additional information: Carmarthen County Council

Allwedd

Ardal wedi'i hamgylchynu mewn coch = Sir Gaerfyrddin
Ardal wedi'i hamgylchynu mewn melyn = Rhan o'r Sir ym Mannau
Brycheiniog

Parc Cenedlaethol (heb fod yn rhan o
Fforwm Sir Gaerfyrddin)

Atodiad 4 - Manylion Aelodaeth / Recriwtio

Yn unol â Rheoliad 3 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforwm Mynediad Lleol) (Cymru) 2001, mae holl aelodau'r fforwm yn cael eu penodi am dair blynedd o ddyddiad y cyfarfod cyntaf o gylch tair blynedd y fforwm.

Yn y cyfarfod ar 26 Chwefror 2015, etholwyd Mark Hadley yn Gadeirydd ac etholwyd Karen Burch yn Is-gadeirydd. Mae'r tabl canlynol yn cynnwys manylion bras am yr holl aelodau hyd at 14 Mehefin 2018.

Enw	Dyddiad y penodwyd i'r Fforwm	Dyddiad y daeth Aelodaeth y Fforwm i ben	Cefndir / Diddordebau yn fras
Mark Hadley (Cadeirydd)	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Twristiaeth, Cerdded, Mynediad i Gerbydau Modur
Karen Burch (Is-gadeirydd)	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Caroline Ferguson (Ysgrifennydd Interim)	12/05/16	Ar gyfnod mamolaeth o gyfarfod 28/09/17 ymlaen	Rheolwr Interim - Mynediad i Gefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Alan Warner (Aelod a Benodwyd gan y Cyngor)	26/02/15	14/06/18	Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad, Cyngor Sir Caerfyrddin
Edward Percy	26/02/15	14/06/18	Mynediad i Gerbydau Modur
Caroline Evans	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Diogelu'r Dirwedd / Ecoleg, Twristiaeth, Mynediad Agored
Eric Jones	26/02/15	14/06/18	Ffermio
Jillie Gardiner	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Chris Rankin	26/02/15	11/05/17	Mynediad i Gerbydau / Marchogwyr, Perchennog Tir
Keith Morgan	26/02/15	14/06/18	Cyngor Cymuned Lleol, Ffermio
Glyn Evans	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Ffermio
Eric Davies	26/02/15	14/06/18	Ffermio
David Stacey	26/02/15	Ddim yn berthnasol	Beicio, Rheoli Cefn Gwlad, Amgylchedd Amaethyddol
Jane Evans	19/11/15	Ddim yn berthnasol	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Richard	19/11/15	Ddim yn	Cerddwyr Caerfyrddin

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynnyddol 2018

Leggett		berthnasol	
Geoffrey Williams	19/11/15	Ddim yn berthnasol	Cerdded
John Cook	22/09/16	14/06/18	Cerddwyr Llanelli
Gerald Brown	22/09/16	Ddim yn berthnasol	Ffermio

Yng nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2018, cytunwyd y byddai'r aelodau a nodwyd ar y dudalen flaenorol yn parhau i gynrychioli'r Fforwm tan i aelodau newydd gael eu hethol i'r Fforwm.

Yn y cyfarfod ar 14 Mehefin 2018, cafodd yr aelodau canlynol eu hethol i'r Fforwm ar gyfer y 3 blynedd nesaf:

Enw	Dyddiad y penodwyd i'r Fforwm	Dyddiad y daeth Aelodaeth y Fforwm i ben	Cefndir / Diddordebau yn fras
Mark Hadley (Cadeirydd)	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Twristiaeth, Cerdded, Mynediad i Gerbydau Modur
Karen Burch (Is-gadeirydd)	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Caroline Ferguson (Ysgrifennydd Dros Dro)	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Rheolwr Dros Dro - Mynediad i Gefn Gwlad, Cyngor Sir Gaerfyrddin
Caroline Evans	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Diogelu'r Dirwedd / Ecoleg, Twristiaeth, Mynediad Agored
Jillie Gardiner	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Mynediad i Geffylau, Twristiaeth
Glyn Evans	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Ffermio
David Stacey	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Beicio, Rheoli Cefn Gwlad, Amgylchedd Amaethyddol
Jane Evans	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Richard Leggett	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Cerdded, Cerddwyr Caerfyrddin
Geoffrey Williams	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Cerdded, Hosteli Ieuencid, Ffordd Cambrian
Gerald Brown	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Ffermio
Paul Barrett	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Cerdded, Cerddwyr Llanelli
Michael Jones	14/06/18	Ddim yn berthnasol	Bioamrywiaeth, Ecoleg, Defnydd Tir ar gyfer Hamdden

Etholwyd yr Aelodau canlynol i'r Fforwm yn ystod 2018:

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynyddol 2018

Enw	Dyddiad y penodwyd i'r Fforwm	Dyddiad y daeth Aelodaeth y Fforwm i ben	Cefndir / Diddordebau yn fras
Mo Rapley	20/09/18	Ddim yn berthnasol	Trail Riders Fellowship, Mynediad i Gerbydau Modur i Gefn Gwlad
Jim Shadbolt	06/12/18	Ddim yn berthnasol	Cerdded, Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyffredinol, Tir Mynediad Agored

Mynychodd Aelodau'r Fforwm gyfarfodydd canlynol y Fforwm yn 2018:

Enw	15/02/18	14/06/18	20/09/18	06/12/18
Mark Hadley (Cadeirydd)	Do	Do	Do	Do
Karen Burch (Is-gadeirydd)	Do	Do	Do	Do
Caroline Ferguson (Ysgrifennydd Dros Dro)	Absenoldeb Mamolaeth o Gyngor Sir Gaerfyrddin	Do	Do	Do
Lucy Pugh (Ysgrifennydd Dros Dro)	Do	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Do
Alan Warner (Aelod a Benodwyd gan y Cyngor)	Naddo	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Edward Percy	Ymddiheuriadau	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Caroline Evans	Do	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau	Ymddiheuriadau
Eric Jones	Naddo	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Jillie Gardiner	Do	Do	Naddo	Do
Keith Morgan	Naddo	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Glyn Evans	Naddo	Ymddiheuriadau	Do	Ymddiheuriadau
Eric Davies	Naddo	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
David Stacey	Ymddiheuriadau	Do	Do	Ymddiheuriadau
Jane Evans	Ymddiheuriadau	Do	Naddo	Naddo
Richard Leggett	Do	Do	Do	Do
Geoffrey	Do	Do	Ymddiheuriadau	Do

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynnyddol 2018

Williams				
John Cook	Naddo	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Gerald Brown	Naddo	Ymddiheuriadau	Do	Ymddiheuriadau
Paul Barrett	Ddim yn berthnasol	Do	Do	Do
Michael Jones	Ddim yn berthnasol	Do	Do	Naddo
Mo Rapley	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Do
Jim Shadbolt	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Do

Allwedd

Do Mynychwyd y cyfarfod
Ymddiheuriadau Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb
Naddo Ni fynychwyd y cyfarfod ac ni dderbyniwyd
ymddiheuriadau am absenoldeb
Ddim yn berthnasol Person heb fod yn aelod o'r Fforwm yn y
cyfarfod hwn

Mae nifer o ymgynghorwyr / aelodau o'r cyhoedd wedi mynychu cyfarfodydd y Fforwm drwy gydol y flwyddyn fel y dangosir yn y tabl isod.

Enw	Sefydliad	Cyfarfodydd a fynychwyd
Cliff Cleaton	Swyddog Dros Dro Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Gaerfyrddin	15/02/18
Martin Murray	Cynrychiolydd Cynnal a Chadw Cyngor Sir Gaerfyrddin	15/02/18
Y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths	Aelod o Fwrdd Gweithredol Cyngor Sir Gaerfyrddin	15/02/18, 06/12/18
Paul Barrett	Cerddwyr Llanelli	15/02/18
Glyn Lloyd-Jones	Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru	15/02/18
Jason Lawday	Swyddog Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Gaerfyrddin	14/06/18, 20/09/18

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
Adroddiad Blynyddol 2018

Mo Rapley	Trail Riders Fellowship	14/06/18
Rob Williams	Trail Riders Fellowship	14/06/18, 06/12/18
Russell Jones	Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru	20/09/18
Andy Firth	Trail Riders Fellowship	20/09/18
Peter Jones	Trail Riders Fellowship	20/09/18
Sian Jones	Trail Riders Fellowship	20/09/18
Gruffydd Rees	Parcmon Mynediad i Gefn Gwlad Cyngor Sir Caerfyrddin	06/12/18

Atodiad 5

Rhestr Ddosbarthu Adroddiad Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol

Gwefan Cyngor Sir Caerfyrddin
Llyfrgelloedd Cyngor Sir Caerfyrddin
Canolfannau Gofal Cwsmeriaid Cyngor Sir Caerfyrddin
Cynghorau Cymuned
Aelodau Cyngor Sir Caerfyrddin
Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Cyngor Sir Caerfyrddin
Cymdeithas Twristiaeth Sir Gâr
Cymdeithas Cerddwyr Ceredigion
Cymdeithas Cerddwyr Penfro
Cymdeithas Cerddwyr Llanelli
Cymdeithas Cerddwyr Dinefwr
Cymdeithas Cerddwyr Caerfyrddin a'r Cylch
Cymdeithas Cerddwyr Llanbedr Pont Steffan
Marchogion Sir Gaerfyrddin
Cymdeithas Ceffylau Prydain
Cymdeithas y Lonydd Gwyrdd
Treadlightly
Trail Riders Fellowship
Welsh Trail Riders Association
Auto Cycle Union
British Motorcyclists Association
Sustrans Cymru
Cyfoeth Naturiol Cymru
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cymdeithas Mannau Agored
Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau
Cymdeithas Gyrru Prydain
Clwb Teithiau i Feicwyr (Cyclists Touring Club)
LARA (Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir)
Canŵ Cymru
Fforwm Mynediad Lleol Bannau Brycheiniog
Fforwm Mynediad Lleol Sir Benfro
Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion
Fforwm Mynediad Lleol Powys
Fforwm Mynediad Lleol Castell-nedd a Phort Talbot
Fforwm Mynediad Lleol Abertawe

Atodiad 6

Rhagor o Ddeunydd Darllen

Adroddiadau Blynyddol y Fforwm Mynediad Lleol

Mae'n ofynnol yn ôl statud i bob awdurdod penodi lunio adroddiadau blynyddol. Gellir cael copi ohonynt gan Ysgrifennydd y Fforwm perthnasol. Mae agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfod unigol y Fforwm hefyd ar gael:

<https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/hawliau-tramwy-cyhoeddus/fforwm-mynediad-lleol/>

Deddf y Llywodraeth

Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000; The Stationery Office Ltd (2000).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001;
The Stationery Office Limited (2002).

Canllawiau ynghylch Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar gyfer Awdurdodau Lleol (Hydref 2016)

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 1: Sefydlu Fforymau Mynediad Lleol – Cyngor a Chyfarwyddyd Arferion Da (2002).

Cyfarwyddyd ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol 2: Swyddogaeth, Dyletswyddau a Phwrpas Fforymau Mynediad Lleol (2002)

Atodiad 7

Rhestr Termiau

Mae'r rhestr isod yn dangos y diffiniadau llawn ar gyfer yr acronymau a ddefnyddiwyd drwy gydol yr adroddiad blynyddol hwn:

Y Fforwm	Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin
ROWIP	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
PROW	Hawliau Tramwy Cyhoeddus
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
PCBB	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
BOAT	Cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig
ORPA	Llwybrau Eraill â Mynediad i'r Cyhoedd
UCR	Ffordd Sirol Ddi-ddosbarth
HOWL	Llwybr Rheilffordd Calon Cymru
BHS	Cymdeithas Ceffylau Prydain
WCP	Llwybr Arfordir Cymru
EDCL	Gweithredu Hawliau o dan Gyfraith Gwlad
WAG	Llywodraeth Cynulliad Cymru
LARA	Cymdeithas Hamdden a Mynediad i Dir